**Cronfa Gymdeithasol Ewrop Gorllewin Cymru a'r Cymoedd: Adroddiad Gweithredu Blynyddol 2015**

# Crynodeb i Ddinasyddion

### Trosolwg

Mae Cymru yn elwa ar oddeutu €2.4 biliwn o gyllid yr UE o dan bedair Rhaglen y Cronfeydd Strwythurol ar gyfer y cyfnod 2014-2020, gan gynnwys oddeutu €800 miliwn o dan Raglen Cronfa Gymdeithasol Ewrop Gorllewin Cymru a'r Cymoedd[1]. Bydd y Rhaglenni hyn yn galluogi i dwf economaidd ddigwydd drwy hyrwyddo lefelau uchel o gyflogaeth gynaliadwy a datblygu gweithlu medrus ac ymatebol yng Nghymru, yn awr ac ar gyfer y dyfodol.

Dyma'r Adroddiad Gweithredu Cyntaf ar gyfer Rhaglen Cronfa Gymdeithasol Ewrop Gorllewin Cymru a'r Cymoedd ac mae'n ymdrin â'r blynyddoedd adrodd 2014 a 2015. Yn 2014, canolbwyntiwyd yn bennaf ar gynllunio a chyd-drafod y Rhaglenni Gweithredu newydd â'r Comisiwn Ewropeaidd, a phenderfynwyd ar drefniadau gweithredu yn ystod y flwyddyn honno hefyd. Cymeradwywyd Rhaglen Cronfa Gymdeithasol Ewrop Gorllewin Cymru a'r Cymoedd ar 04 Rhagfyr 2014.

### Prif gyflawniadau yn ystod y blynyddoedd adrodd 2014/2015


- Erbyn diwedd 2015 roedd €273 miliwn o Grant yr UE wedi ei ymrwymo i 19 o weithrediadau sydd, ynghyn â chyllid cyfatebol, yn cynrychioli buddsoddiad o €487 miliwn.
- Sefydlwyd Pwyllgor Monitro'r Rhaglen yn ffurfiol ar 05 Rhagfyr 2014 a chyfarfu bedair gwaith yn ystod 2015. Mae gan y Pwyllgor drosolwg strategol o'r holl Gronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd yng Nghymru.
- Yn 2015 cytunodd Pwyllgor Monitro'r Rhaglen yn ffurfiol ar y canlynol ar gyfer Rhaglenni'r Gronfa Strwythurol:
  - y meini prawf o ran asesu a dethol gweithrediadau;
  - strategaeth Fonitro a Gwerthuso
  - cynllun Cyfathrebu

  Mae'r dogfennau hyn a chofnodion Pwyllgor Monitro'r Rhaglen ar gael ar y tudalennau hynny ar wefan Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â Chronfeydd Ewropeaidd.
- Mae systemau wedi eu rhoi ar waith i reoli'r Rhaglen ac mae cyfres o ganllawiau wedi ei llunio a'i chyhoeddi ar gyfer sefydliadau sy'n dymuno gwneud cais am gyllid.

[1] Ffigurau ar gyfer dyraniadau Grant yr UE

## Cynnydd ariannol

Mae'r siartiau canlynol yn dangos maint yr ymrwymiad (cyfanswm a Grant yr UE) wedi ei ddadansoddi fesul echel Blaenoriaeth:




## Gweithrediadau a gymeradwywyd hyd at ddiwedd 2015

Isod mae disgrifiad o'r gweithrediadau a gymeradwywyd o dan bob Blaenoriaeth rhaglen. Mae astudiaethau achos o weithrediadau cymeradwy ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru www.gov.wales/eu-funding

### Blaenoriaeth 1 – Trechu Tlodi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy

Cymeradwywyd saith gweithrediad o dan yr echel Flaenoriaeth hon. Mae gweithredu'r Amcan Penodol cyntaf yn canolbwyntio ar weithrediad *ReAct* Llywodraeth Cymru sy'n cefnogi unigolion sydd wedi colli eu swyddi. At hyn, mae Llywodraeth Cymru wrthi'n datblygu cynllun cymorth sgiliau i bobl a fu'n ddi-waith ers cyfnod byr neu sydd â lefel isel o sgiliau, ac mae'n debyg y caiff hwn ei gymeradwyo yn 2016. Mae mathau eraill o gymorth, yn benodol i bobl a fu'n ddi-waith ers cyfnod byr ac sydd â chyflyrau iechyd neu anableddau sy'n effeithio ar eu gallu i weithio, yn fwy tebygol o gael ymdriniaeth briodol drwy gyfrwng gweithgarwch mwy penodol ar

raddfa lai. Mae Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru yn cadw llygad ar y bwlch posibl hwn mewn darpariaeth.

Caiff yr ail Amcan Penodol ei ddatblygu yn seiliedig ar bortffolio amrywiol o gynlluniau sy'n canolbwyntio ar ardaloedd a grwpiau gwahanol, gyda chynlluniau cenedlaethol sy'n berthnasol i Gymru gyfan megis mentrau cymeradwy *Cymunedau dros Waith* Llywodraeth Cymru a'r cynlluniau *Cynhwysiant Gweithredol* y mae Cyngor Gweithredol Gwirfoddol Cymru yn arwain arnynt. Caiff y cynlluniau hyn eu hategu gan gynlluniau rhanbarthol, megis y cynllun cymeradwy *Pontydd i Waith* y mae nifer o Awdurdodau Lleol yn ei arwain ac yn cydweithio arno yn ne ddwyrain Gorllewin Cymru ac ardal y Cymoedd.

Mae gweithredu'r trydydd Amcan Penodol wedi'i seilio ar *Cymru Iach ar Waith* sef cynnig creiddiol Llywodraeth Cymru sy'n cwmpasu'r rhaglen gyfan i gefnogi'r unigolion hynny sydd mewn perygl o roi'r gorau i'w gwaith oherwydd cyflwr iechyd sy'n effeithio ar eu gallu i weithio. Mae Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru hefyd yn annog ceisiadau i ddarparu cefnogaeth i'r bobl hynny sydd wedi eu 'tangyflogi' oherwydd cyflwr iechyd sy'n effeithio ar eu gallu i weithio. Mae bwlch yn ymagor yn y maes hwn o ran mynd i'r afael â'r bobl hynny sydd wedi eu 'tangyflogi.' Bydd Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru yn cadw golwg ar hyn.

**Blaenoriaeth 2 – Sgiliau Twf**

Cymeradwywyd chwe gweithrediad o dan yr echel Flaenoriaeth hon. Caiff y portffolio o gynlluniau ar gyfer dau Amcan Strategol cyntaf y Flaenoriaeth (datblygu sgiliau lefel is a chanolraddol / uwch) eu gweithredu yn seiliedig ar gynlluniau *Prentisiaeth* cymeradwy Llywodraeth Cymru. Mae'r cynlluniau hyn yn rhoi pwyslais penodol ar bobl 16-24 mlwydd oed a phrentisiaethau uwch, gan ymateb i gyfleoedd sy'n codi yn yr economi ac i anghenion byd busnes. Eir ati ochr yn ochr â'r cynlluniau hyn i ddarparu sgiliau hanfodol, technegol ac ar gyfer swyddi penodol, gyda'r sector Addysg Bellach yn arwain y gwaith hwn gan fwyaf. Mae nifer o'r cynlluniau hyn yn y cam 'Cynllunio Busnes.'

O dan y Trydydd Amcan Penodol (sgiliau ymchwil ac arloesi), sy'n canolbwyntio'n benodol ar gefnogi gwaith ymchwil ar y cyd wrth i fentrau ganolbwyntio ar feysydd 'Her Fawr' Gwyddoniaeth i Gymru, cymeradwywyd un cynllun. Prifysgol Abertawe sy'n arwain y cynllun hwn, a bydd yn cefnogi Doethuriaethau Peirianegol a Graddau Meistr Ymchwil ym maes deunyddiau a gweithgynhyrchu uwch. Cynllun arall a oedd yn cael ei ddatblygu yn 2015 oedd cynnig dan arweiniad Prifysgol Bangor yn canolbwyntio ar gynyddu ymchwil ac arloesi mewn busnesau bach a chanolig, gan gynnwys cwmnïau micro.

O dan y pedwerydd Amcan Penodol (gwella sefyllfa menywod yn y gweithlu) cymeradwywyd y gweithrediad *Cenedl Hyblyg 2* dan arweiniad Chwarae Teg. Bydd y gweithrediad hwn yn cynnig gwasanaeth mentora a chefnogaeth sgiliau i fenywod sy'n gweithio, gan ganolbwyntio ar fenywod mewn sectorau twf lle maen nhw wedi

eu tangynrychioli yn y gweithlu ac mewn uwch swyddi rheoli. Bydd hefyd yn gweithio gyda chyflogwyr i hyrwyddo amrywiaeth a mynd i'r afael ag anfantais ar sail rhyw yn y gweithlu.

**Blaenoriaeth 3 – Cyflogaeth a Chyflawniad Pobl Ifanc**

Cymeradwywyd pum gweithrediad o dan yr echel Flaenoriaeth hon. O dan yr Amcan Penodol cyntaf, mae gwaith yn mynd rhagddo i roi gweithrediad cynllun cymeradwy *Twf Swyddi Cymru* ar waith, sy'n canolbwyntio ar gefnogi pobl ifanc ddi-waith 16-24 oed sy'n barod i weithio fel arall, i gael swydd ar ôl gadael addysg orfodol. Mae'r cynllun *Hyfforddeiaethau* yn canolbwyntio ar gefnogi pobl ifanc 16-18 oed sydd wedi gadael addysg orfodol nad ydynt wedi penderfynu ar ba lwybrau dysgu ôl-16 i'w dilyn a/neu nad oes ganddynt y sgiliau na'r galluoedd i gael swydd. Roedd cynigion eraill hefyd yn cael eu datblygu yn ystod 2015, gan gynnwys gweithrediadau Llywodraeth Cymru sy'n cwmpasu'r rhaglen gyfan a gweithrediadau rhanbarthol cydweithredol dan arweiniad Awdurdodau Lleol Cymru.

Roedd nifer o Weithrediadau yn cael eu datblygu o dan ail Amcan Penodol y Flaenoriaeth yn 2015. Caiff darpariaeth Cymru gyfan ei datblygu drwy gyfrwng portffolio o gynlluniau rhanbarthol y mae'r Awdurdodau Lleol yn eu harwain, sy'n targedu pobl ifanc 11-19 oed sydd fwyaf tebygol o fod yn unigolion nad ydynt mewn addysg, gwaith na hyfforddiant. Y bwriad yw ail-ennyn eu diddordeb mewn addysg a lleihau'r perygl o fod yn unigolion nad ydynt mewn addysg, gwaith na hyfforddiant. Caiff hyn ei ategu gan weithgareddau llai o faint a mwy penodol i gefnogi'r bobl ifanc hynny rhwng 19 a 24 oed yn y sector Addysg Uwch ac Addysg Bellach sydd fwyaf tebygol o fod yn unigolion nad ydynt mewn addysg, gwaith na hyfforddiant.

O dan y trydydd Amcan Penodol mae'r portffolio sy'n prysur ddatblygu yn canolbwyntio ar weithrediad *STEM Cymru II* a gymeradwywyd yn ystod 2015. Bydd y cynllun hwn yn targedu pobl ifanc ar adegau yn ystod addysg uwchradd a thrydyddol eu bywydau lle maent yn gwneud penderfyniadau allweddol neu'n trosglwyddo. Rhoddir sylw i'r nifer o ferched sy'n dilyn pynciau STEM a'u cyrhaeddiad yn y pynciau.

Mae'r pedwerydd Amcan Penodol yn cael ei ddatblygu drwy gyfrwng gweithrediad unigol y mae Llywodraeth Cymru'n arwain arno ac a gymeradwywyd tua diwedd 2015. Mae'r cynllun hwn yn canolbwyntio ar gynyddu sgiliau'r gweithlu sy'n gweithio gyda'r blynyddoedd cynnar ac ym maes gofal plant.

## Echel 4 – Cymorth Technegol

Cymeradwywyd un cynllun o dan yr echel Flaenoriaeth hon. Mae nifer o gynlluniau yn y cam ‘Cynllunio Busnes’, ac mae sawl un hefyd yn y cam ‘Cyn-gynllunio’. Mae disgwyl y caiff llawer o’r rhain eu cymeradwyo erbyn diwedd yr haf 2016. Mae buddsoddiadau’n cynnwys y gweithrediad cymeradwy sy’n ymwneud â chostau refeniw ar gyfer cynlluniau cymorth Cyrff Cyfryngol o dan reolaeth Llywodraeth Cymru a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Mae buddsoddiadau cynlluniedig hefyd yn cynnwys cyfres o bedwar cynllun Ymgysylltu Rhanbarthol yng Nghymru.